Gair bach Bethlehem 44

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** – rhif 44 - (Rhifyn cyn y Nadolig 2023)
(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Neges Nadolig 2023 Delwyn

TANGNEFEDD

A fu Nadolig fel hwn erioed? Nadolig dan warchae rhyfel yng ngwlad Tywysog Tangnefedd, lle mae Herodiaid y byd ar gerdded, a dial yn drech na phob dim? Ddim i mi gofio. Bu'n flwyddyn o ddathlu i ni ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, pryd tybed bydd Bethlehem, Jiwdea, a thiroedd Gaza'n cael cyfle i ddathlu bod ei phobl yn rhydd o gysgodion gwae a dinistr?

99 o flynyddoedd yn ôl ar ddydd Nadolig 1914, yn ystod y Rhyfel Mawr, fe gafwyd cadoediad rhwng lluoedd Prydain a'r Almaen. Fe osodwyd coed Nadolig ym mwd y ffosydd yn Ffrainc, fe chwaraewyd gêm o bêl droed, fe rannwyd siocled a diodydd, ac fe ganwyd ambell i garol, "O Tannenbaum" a "Tawel Nos". Am un diwrnod yng nghanol yr erchylltra roedd heddwch yn teyrnasu, a bu tangnefedd ymhlith y milwyr, tangnefedd ac ewyllys da, cyn i'r cantorion milwrol ddychwelyd i'r lladdfa am bedair blynedd arall. Am ffolineb, am ynfydrwydd, am wastraff. Ond dyna wirionedd a gwiriondeb pob rhyfel.

Dwi'n amau'n fawr os bydd yna gadoediad ar diroedd Gaza a'r Lan Orllewinol y Nadolig hwn. Byddai'n dda pe bawn i'n gwbwl anghywir. Cawn weld. Ac am faint bydd y dinistr yn parhau? A beth fydd yr hanes wedyn? A ddaw heddwch? Trugaredd? Cyfiawnder?

Eleni'n fwy nag erioed bydd angen Doethion, nid i gyrraedd pen y daith y tro hyn, ond i arwain y ffordd ymlaen. A bydd angen Bugeiliaid, i fugeilio'r rhai sydd wedi'i gorfodi i grwydro o'u cynefin ac sydd ar chwâl ar hyd y meysydd. A bydd angen Angylion. Angylion Tywysog Tangnefedd, i ganu'n uwch nag erioed bod "Tangnefedd i bobol o ewyllys da" yn bosib. A fydd gan Herodiaid y byd glustiau i wrando, yr awydd i glywed, a'r ewyllys i weithredu i sicrhau bod hynny'n digwydd? Eto, cawn weld.

Cyn cloi, ga' i ddychwelyd i'n Bethlehem ni, a dymuno Nadolig Llawen iawn i chi gyd, gan ddiolch am eich cefnogaeth; un ac oll, i holl waith y Tŷ Cwrdd yn ystod y flwyddyn sydd wedi mynd heibio, a gan edrych ymlaen at eich cwmni yn y flwyddyn sydd i ddod.

Nadolig Llawen a Thangnefeddus i chi gyd.

Delwyn

Yn y rhifyn hwn...

GWEITHGAREDDAU .. NEWYDDION .. Y GWYNFYDAU .. CWRDD MERCHED .. LLUNIAU
(ac ar frig ambell dudalen – rhai o'r addurniadau wnaed yn y festri ar gyfer y 9 Llith a Charol)

Cofiwch! Oedfa Bore Sul nesaf - 17 Rhagfyr, 2023
Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul, 10.30

Suliau Bethlehem – Y Nadolig, Calan a Ionawr

Gweddill Rhagfyr 2023:

17 Rhagfyr – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul (10:30 a.m.)
24 Rhagfyr – **DIM OEDFA**
25 Rhagfyr – Oedfa dydd Nadolig (10:00 a.m.)
31 Rhagfyr – Oedfa dan ofal Delwyn Sion (10:30 a.m.)

Mis Ionawr 2024:

7 Ionawr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion (10:30 a.m.)
14 Ionawr – Plygain (am 5:00 p.m.)
21 Ionawr – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards (10:30 a.m.)
28 Ionawr – Oedfa dan ofal Marc John Williams (10:30 a.m.)

Cylch Cadwgan

PERLAU PRYS MORGAN

Yr hanesydd a'r llenor yn ôl ym Methlehem

Prys Morgan

Wyn yn llywyddu

Os na chawsoch gyfle i fod yno'n gwrando ar ddarlith Yr Athro Prys Morgan am ei atgofion o fynychu Bethlehem gyda'i dad, yr Athro T J Morgan, neu'n mynychu capel Salem "lan yr hewl", gyda'i fam, yna rydych chi wedi colli perl o noson! Daeth ei rieni i fyw i Radur pan oedd Prys a'i frawd, y diweddar brif-weinidog, Rhodri Morgan, yn blant ac arferai'r teulu gerdded bob cam i'r oedfaon ar y Sul.

Diolch i Wyn Jones, oedd yn llywyddu'r noson, ***mae yna fideo o'r noson***. Os ewch chi ar wefan Bethlehem a chlicio ar "Cylch Cadwgan" ar ymyl y ddalen, yna sgrolio lawr i gyrraedd yr inc coch, fe fyddwch yn ei chyrraedd. Fyddai crynodeb fan hyn ddim yn gwneud cyfiawnder â'r darlithydd na'r cynnwys. Digon yw dweud y byddai'n dda i sawl "stand-yp" ddysgu oddi wrtho sut i lunio sgwrs gron gelfydd llawn hiwmor – i gyd o dan yr awr. Gwyliwch hi, da chi! Cyn gadael, fe fanteisiodd Rhodri-Gwynn ar y cyfle i dywys Prys i'w hen eisteddle ym Methlehem a chofnodi hynny i'r Gair Bach *(dde)*.

Yn ôl yn ei sedd

Y GWYNFYDAU

Pnawn Sul, Tachwedd 26ain oedd hi. Roedd Eilir Owen Griffiths wedi cyfansoddi cerddoriaeth newydd sbon ar eiriau rhai o aelodau Bethlehem a phob gwaith yn seiliedig ar rai o'r 'Gwynfydau'. Roedd yr ymarferion wythnosol drosodd – a phawb yn ei le. Dim ond y lluniau allwn ni gofnodi yma – cewch y perfformiad cyflawn ar ein gwefan ac ar YouTube– drwy glicio yma: https://youtu.be/DgyszYnV5Hw

Mae ein diolch yn arbennig i Eilir am ysgogi'r holl fenter, am ei waith yn cyfansoddi ac am ddod â'r cyfan ynghyd. Diolch hefyd i bawb gyfrannodd i'r diwrnod, boed unawdwyr, offerynwyr, llefarwyr y Gwynfydau o'r Beibl, y beirdd (Delwyn, Ifan, Hannah, Eifion Glyn, Rhys Powys a Rhodri-Gwynn), Anthony, arlunydd y delweddau ar y sgrîn, ac i'r gynulleidfa am eu cefnogaeth. *Gwnaed casgliad o £600 at elusen Marie Curie er cof am y diweddar Barchedig Ddr. R. Alun Evans*.

(Mae'r lluniau hyn i gyd wedi dod o sawl camera – diolch i bob un ohonoch gyfrannodd.)

Gwern Morris Williams (tenor)

Celyn Stewart (Soprano)

Claudine Cassidy (Cello) & Branwen Evans (Piano)

(Parhad ar y dudalen nesaf)

(parhad)

Y GWYNFYDAU



Y LLEFARWYR:

Gwenni

Alys

Anni


Luned

Mabon


Aaron

Megan

NEWYDDION BETHLEHEM

NADOLIG YN YR HAUL!

Fe fydd sedd gefn ochr chwith Bethlehem yn wag dros y Nadolig hwn – bydd y tair welwch chi ar y chwith yn mwynhau haul Arfordir Aur Awstralia!

Dymuniadau da iawn i Catherine Blyth, Ffynnon Taf, sydd ar gychwyn gyrfa newydd yn ardal Brisbane. Ond dyw hi ddim wedi ymadael heb gael cwmni ar ei thaith. Mae ei mam, Jean, a'i modryb, Mary Edwards, Gwaelod-y-garth, wedi mynd draw am wyliau.

Catherine dynnodd y llun hwn ar ei Sul olaf yn y Tŷ Cwrdd. Mae hi wedi addo anfon ambell lun i ni o'r is-gyfandir ben arall y byd.

LEAH YN DIOLCH!

Diolch o waelod calon i bawb a'm cefnogodd ar fy nhaith Hanner Marathon Caerdydd ym mis Hydref eleni. Gyda'ch cefnogaeth chi, llwyddais i godi dros £600 tuag at elusen Mind. Roedd yn brofiad gwefreiddiol i redeg trwy strydoedd Caerdydd am yr eilwaith, a hynny yn 20fed blwyddyn y ras. Roedd y dorf yn hybu pob rhedwr, a gwelais sawl wyneb cyfarwydd ar hyd y ffordd. Y gamp nesaf yw'r London Landmarks Half Marathon ym mis Ebrill 2024, a dwi'n edrych ymlaen at hynny yn fawr. Diolch eto i chi gyd!

Leah Owen Griffiths

Pen-blwydd Hapus iawn

i Kay Clement. Ffynnon Taf, yn 80 oed.

A chofion cynnes at y teulu oll, yn arbennig David.

Rydyn ni'n anfon ein cofion at yr isod, sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar

Ann Sion – wedi colli ei mam

Brenda Jones – wedi colli ei chwaer

Sian Powys - wedi colli ei mam

Dylan a Mair John – wedi colli Glesni

Ar ddydd Sadwrn yr 28ain o Hydref priodwyd Siôn Ifan, mab Menna ac Iwan Jones, Rhiwbeina, â Medi o Drawsfynydd. Cynhaliwyd y briodas ym Mhlas Isaf Corwen yng nghwmni teulu a ffrindiau. Mae Siôn a Medi wedi ymgartrefu yn Lecwydd, Caerdydd. Dymuniadau gorau iddynt am fywyd hapus gyda'i gilydd.

Dameg y wiwer a 'deryn y to!

RHYS POWYS

Tybed a oes un o ddarllenwyr cyson y “Gair Bach” yn cofio saga “y porthwr adar” yn tŷ ni - yr ymgodymu moesol gododd yn sgil y ffaith fod wiwerod yr ardal yn mynnu bwyta'r bwyd yr oeddwn yn ei ddarparu ar gyfer adar bach y to?

[Ydyn, Rhys, a dyma lun anfonaist ti'r adeg honno, o faes y gad – Gol.]

Fe droes yn frwydr ddigon tactegol. Fe fyddwn i'n gosod rhwystrau, ac yn hongian y bwyd ymhellach o afael y creadur, a byddai'r wiwer yn cnoi trwy bob rhwystr a dringo ben i waered cyn llenwi ei bochau a'i bol. Diwedd y stori oedd gorfod prynu “Heavy-duty Squirrel-proof Bird Feeder”, o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, a llwyddodd cawell trwchus hwnnw i gadw'r wiwer hyd-braich ac i borthi'r adar bach trwy'r gaeaf.

A dyna fu'r drefn y gaeaf yma eto. Llenwi'r “porthwr adar” â hadau, cloi'r cyfan yn y cawell cyntefig, ei hongian ar gangen y goeden gyfagos ac aros i'r adar fflîo mewn bob bore gyda'u trydar diolchgar.

O dipyn i beth, fe sylwais fod y wiwer wedi dychwelyd hefyd ond, eleni, yn lle dringo i'r canghennau a cheisio ymgodymu â'r cawell, fe fyddai'n eistedd yn llonydd ac amyneddgar ar y gwair o dan y goeden. Wrth i'r adar bigo o'r porthwr byddai cawodydd o hadau'n disgyn ar lawr - a'r wiwer yn aros yno i'w casglu a'u bwyta'n ddiolchgar! A dyna'r drefn bob bore bellach. Mae'r adar yn bwyta o'u gwala, y wiwer yn manteisio yn amyneddgar, ddi-ymdrech ar y briwsion - a thrigolion yr ardd yn cyd-fwyta yn gytûn.

Bydd aderyn y to yn rhannu'i fwyd gyda'r wiwer - a byd natur yn dangos fod modd cyd-fyw yn hapus, llwyddiannus a heddychlon trwy arddangos ychydig o amynedd, cyfaddawd a pharch at anghenion rhai eraill sy'n rhannu'r un darn o dir.

Fel y dywed Eseia…

> “Bydd y blaidd yn cyd-fyw gyda'r oen, a'r llewpard yn gorwedd i lawr gyda'r myn gafr.
> Bydd y llo a'r llew ifanc yn pori gyda'i gilydd a bachgen bach yn gofalu amdanyn nhw”.

Paratoi'r addurniadau Nadolig sydd i'w gweld yn y rhifyn hwn

Dwy gyfrol i'r hosan Nadolig

Braf cael nodi bod o leiaf ddwy gyfrol o'r wasg y Nadolig hwn sydd â chysylltiad â Bethlehem.





Cawsom ragflas ganol haf 2021 gan Alwyn Harding Jones fod yna gyfrol ar y gweill am fordaith olaf yr 'Inverness' o ddociau Caerdydd. Mordaith oedd yn anelu, yn y pen draw, i gyrraedd Chile. Chyrhaeddon nhw ddim mo'r wlad honno gan fod cargo'r llong wedi tanio'n ddisymwth yng nghanol y Môr Tawel a'r criw wedi gorfod dianc mewn dau fad achub bychan ac anelu am y darn tir agosaf oedd 650 milltir i ffwrdd. Ar ôl saith diwrnod yn y cychod achub fe gyrhaeddon nhw ynys fechan o'r enw Rapa a chael croeso mawr gan y brodorion. Mae cyfrol Alwyn yn seiliedig ar ddyddiadur a nodiadau ei daid oedd yn aelod ifanc o griw yr 'Inverness' ar y fordaith.

Rhaid fod yr ysfa i grwydro yng ngwaed y teulu, gan fod Alwyn ac Angharad ar fin cyrraedd yn ôl o Seland Newydd. Siawns y cewch chi gyfle i'w holi am y llyfr yn fuan. Yn y cyfamser, mae colofn Martin Huws yn y rhifyn cyfredol o Tafod Elai yn codi cwr y llen am yr awdur a'r hanes.

I droi at yr ail gyfrol, dewisodd cyn-ysgrifennydd Bethlehem, Rhys Dafis, ddychwelyd i'n festri i lansiad de Cymru o'i gyfrol gyntaf o farddoniaeth "Gweld Llun o Glywed Llinell". Fe gafodd dŷ llawn a bu'r sgwrs rhyngddo â'r Prifardd T James Jones yn drafodaeth flasus am yr hyn oedd tu ôl i ambell gerdd ac am gefndir Rhys. Yn festri Bethlehem y bu Rhys yn cynnal ei ddosbarth nos "Nyddu'r Cynganeddion" am flynyddoedd ac oddi yno yr ysgogodd o sawl tîm i gystadlu ar "Dalwrn Y Beirdd" Radio Cymru. Braf oedd gweld sawl cyn aelod o'r timau yn y gynulleidfa, a'r un mor braf croesawu Sheila yno hefyd. Do cafwyd blas ar y trafod a blas ar y gacen yr oedd Barddas wedi ei darparu ar gyfer y lansiad. Gwerth nodi i'w gyd-aelodau o Barti'r Efail geisio gwneud cyfiawnder â geiriau Rhys i'r "Parti Cerdd Dant" ddaeth â buddugoliaeth iddyn nhw ym Mhrifwyl Blaenau'r Cymoedd yn 2010. Diolch i bawb fynychodd y lansiad ac a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.



Gweler hefyd – dau englyn gan Rhys yn "Odlau'r Garth" ar ddiwedd y rhifyn hwn.

Arwel Ellis Owen

LLYTHYR GAN FY NHAID

Cefais lythyr gan fy nhaid y dydd or blaen. Dim byd anarferol yn hynny, rydwi'n clywed chi'n dweud, o gofio bod teidiau yn mynd yn iau. Fe ddarllenes yn ddiweddar bod un gwr yn Awstralia yn daid er mai dim ond tri deg wyth oed oedd o.! Ond 'hold-on', medda fi. Dwi dros fy mhedwar ugain. Rhaid bod fy nhaid felly o leia cant a hanner. 'Scersli bilîf' fel y byddai hen daid arall o Ben Llŷn yn arfer dweud.

Llythyr oedd hwn o Gorffwysfa Dolwyddelan gan fy nhaid William Owen. Y dyddiad ydi Rhagfyr Yr 8fed 1942.Sgwennu at deulu nain, ,sef hen Deulu Tŷ'r Ysgol, Llanaelhaearn, oedd bellach yn byw yn " Mro'r Gorllewin", sef America, oedd fy nhaid.

Darganfuwyd y llythyr gan Geraint, cefnder i mi, wrth iddo chwilota mewn hen gist o deulu Trefnant, ger Dinbych. Mae 'na gyfeiriad yn y llythyr at fy nhad a mam *"a'r eneth fach yn iach a chysurus. Enw'r eneth, dwy a hanner oed, ydi Rowenna".* Dim sôn am fy mrawd, Wynford. Na fi! Doedden ni heb ein geni wrth gwrs. Ond mae darllen hanes y teulu cyfan cyn bod sôn amdanaf wedi cael yr effaith rhyfedda arna i.

Bu farw fy nhaid cyn i mi gael cyfle i'w nabod. Y cwbl oedd gennyf o'i eiddo, cyn hyn, oedd ffoto ohono. Llawn pen o wallt gwyn a wyneb glan er gwaetha oes o weithio ar wyneb y graig mewn chwarel yn y Blaenau. Bellach mae gennyf y llythyr, ei lawysgrifen a'i lofnod. A llawer mwy.

"Bellach, dyma'r pum plentyn a adawyd bedair mlynedd ar hugain yn ôl yn amddifad o fam, yn atebol drostynt eu hunain", meddai, cyn ychwanegu, *"Mae rhyw amddiffyn rhyfedd wedi bod drostynt yr holl flynyddoedd hyn, ac mae gennym lawer iawn o le i ddiolch".*

Roedd fy nhaid yn flaenor amlwg ac fe aeth tri o'i blant i'r Weinidogaeth. Anti Margaret yn genhades i'r India, Wncl John a nhad yn weinidogion Yr Hen Gorff yng Nghlwyd, Meirion ac Arfon.

Hanes taith y teulu i gyfarfod sefydlu fy ewythr yn Llangynog, ydi sylwedd y llythyr, gyda dwy bregeth gyda'r hwyr, *..."gyda Robert Richards, MP dros Ddwyrain Dinbych yn bresennol. Yr oedd wedi hanner nos arnom yn cyrraedd gartref. Cawsom groeso cynnes gan bobl Llangynog, Yr oeddynt wedi darparu yn helaeth mewn bwydydd, ac yr oedd yn amlwg fod y Diwrnod yn un mawr yn eu golwg".*

Mae yn disgrifio taith y pump oedolyn mewn car Ford bach, *"yn croesi o'r Bala dros fynydd y Berwyn,13 milltir o fynydd, ac wedi dringo i'w frig, mynd i lawr gallt serth a dibyn enbyd ar un llaw, a hen ochr fawr uchel, a'i hwyneb yn falurion rhydd i gyd, a rheini yn llithro i'r ffordd, ar y llaw arall"*. Wrth ddarllen, dyma sylweddoli i mi yrru ar yr union ffordd gefn y llynedd wrth ymlwybro i'r Steddfod.

Ond dydi ail fyw hen lwybrau ddim yn esbonio i fi pam mod i wedi cynhyrfu cymaint o dderbyn llythyr fy nhaid. Hwyrach bod y ffaith bod y teulu 'ma yn bod, ac wedi gwasgaru i bob cornel o'r byd, cyn bod sôn am ail blentyn gweinidog Llansannan, wedi gwneud i mi feddwl am gylch bywyd, a bod cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth, yn gwneud o'u gorau i sicrhau bod y cysylltiadau yn parhau a bod yna gyfrifoldeb arnaf fi rwan i drio ffeindio teulu Tŷ'r Ysgol, sef wyrion Anti Ann, Anti Mable ac Yncl Ifan o "Fro'r Gorllewin" sydd rhywle yn byw yn "Yr USA". Dyna dwi'n gredu sydd wedi fy nghyffroi o dderbyn llythyr taid wyth deg mlynedd wedi iddo ei bostio o "Dol'ddelan".

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifynnau o

Gair Bach Bethlehem

eto eleni - yn lluniau a geiriau.

A diolch i chi am ei ddarllen!

Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Ionawr 16 2024 (ar ôl y Plygain): *tycnau@aol.com*

Naw Llith a Charol

Fel pob blwyddyn, Delyth Evans (Yr Eglwys Newydd) fu'n trefnu'r oedfa "Naw Llith a Charol" a diolch i bawb welwch chi yma am gytuno i gymryd rhan. Unwaith eto eleni ymunodd Côr CF1, dan arweiniad Eilir Owen Griffiths, â ni. Roedd yno hefyd gynulleidfa gref a chanu carolau oedd yn atsain drwy'r ardal.



Diolch i waith camera ac arbenigedd Wyn a Heulwen, mae'r cyfan i'w gael ar YouTube, dim ond i chi glicio ar https://youtu.be/xrV_zCk-7a4

Oedfa Ddiolchgarwch Yr Ysgol Sul

Diolch unwaith eto eleni i'r plant a'u rhieni, ac i'r tîm sy'n arwain yr Ysgol Sul, dan arolygiaeth Heulwen Jones, am eu cwmni a'u cyfraniadau i'r Oedfa. "Cynhesu Byd Eang" oedd thema anerchiad Heulwen yn ogystal â bod yn destun yr arbrawf gwyddonol gyda'r iâ yn toddi.



v

Dyma'r ddolen gyswllt i ail wylio'r Oedfa gyfan ym Methlehem, fore Sul yr 8fed o Hydref:
https://youtu.be/cRgt0lAOdns

Cwrdd Merched Rhagfyr

Danteithion Nadoligaidd 2023 Marian

Roedd y cyhoeddiad yn gwbl eglur – fod yna groeso i'r gwrywod hefyd ymuno yn y cyfarfod i flasu cynnyrch cegin Nadoligaidd Marian Ifans. Dim ond un bolgi fanteisiodd ar y gwahoddiad – a chael y dasg gan Eirlys o gofnodi'r achlysur ar gyfer y 'Gair Bach". Mae hi'n bleser gen i adrodd fod pob un o'r danteithion at fy nant ac i mi adael yn addunedu byddwn i'n cael siot ar ambell un fy hunan! Pa gymeradwyaeth well gewch chi?

Roedd gweld y platiau gweigion yn dystiolaeth amlwg fod pawb wedi mwynhau ac yn ddiolchgar unwaith eto i Marian am ei chyflwyniad. Y newydd arall ydy ei bod hi eisoes yn gweithio ar gyflwyniad y flwyddyn nesaf. Felly, chwi ddynion Bethlehem, ymwrolwch a dowch yno. Wnewch chi ddim difaru!

Nid oes ragor i'w ddweud – ac eithrio diolch i Eirlys Lamb am ei dewis o gerdd hynod amserol a phriodol ar y dechrau a chyhoeddi'r ryseitiau'n llawn ar y dudalen hon.

Ifan

Datys, caws a chnau

Dewiswch ddatys Medjool os yn bosib. Gwnewch hollt fach yn y datys, gan roi ychydig o dip caws glas i mewn ac ychwanegu almwn ar y top

Pate Madarch

250g Madarch amrywiol; 30g menyn; 3 neu 4 clof garlleg; 250g Crème Fraiche

Torrwch y madarch yn ddarnau mân. Toddwch y menyn, ac ychwanegu'r garlleg a'r madarch. Coginiwch nhw am tua 10 munud, nes bod yr hylif wedi mynd. Oerwch nhw am ychydig. Rhowch y gymysgedd mewn hylifwr, ac yna ychwanegwch y crème fraiche a'i hylifo eto. Ychwanegwch halen a phupur a gadewch iddo oeri

Mae'n cadw'n ffres yn yr oergell am o leia wythnos. Gweiniwch ar fisgedi bach gan ychwanegu ychydig o walnuts wedi eu torri

Crostini a 2 Daeniad (Spread!)

Mae'n gwneud tua 40/50. 1 Baguette fawr (wedi mynd yn hen. Tafellwch y bara tua ½ centimetr o drwch efo olew olewydd ar y ddwy ochr. Rhowch ar resel yn y popty (200gradd) am 5 -10 munud, gan eu troi drosodd i frownio. Oerwch, ond dim am fwy na 2 awr.

Taeniad 1: *Caws a Mascarpone*

120 g Gorgonzola / Stilton; 2 Lwy fwrdd Gwin Marsala;

40g Mascarpone; Nytmeg ffres; Persli mân.

Masho popeth, gan ychwanegu'r persli ar nytmeg ar y top.

Taeniad 2: *Puree Pys a Garlleg*

1 Pen cyfan o arlleg; 1 llwy de o olew; 200g pys;

1 Llwy fwrdd menyn wedi toddi; 2 Llwy fwrdd Parmesan; Mintys wedi ei falu.

Popty 200. Torrwch y garlleg yn ei hanner, ar ei draws. Sgwâr o ffoil, i wneud parsel, gan ychwanegu'r olew. Rhostiwch am tua 50 munud. Coginiwch y pys. Gwasgwch y garlleg at y pys, y menyn a'r caws, a'i roi mewn hylifwr.

Taenwch dros y bara, gan roi mintys ar y top.

Teisen Gaws Mins Peis

Toddwch 70g o fenyn hallt ar ôl briwsioni, a 200g o fisgedi sinsir. Ychwanegwch 2 fins pei fawr, wedi ei malu'n ddarnau. Gwasgwch i waelod tun 'springform' sydd wedi ei iro a'i leinio. Oerwch am tua 30 munud. Chwipiwch 500g o gaws meddal er mwyn ei lacio ac ychwanegwch 500g o hufen dwbl a 50g o siwgr eisin .Chwipiwch hyd nes ei fod yn dal ei siâp. Ychwanegwch 100g o friwgig, croen 2 oren, a'u sudd. Rhowch hwn ar ben y bisgedi gan ychwanegu rhagor o groen oren ar y top, a'i oeri am o leia 8 awr.

'Cup Cakes' gyda Briwfwyd

Pentwr o 'Fairy cakes' plaen / 'Butter icing' / 'Mincemeat'

(parhad ar y dudalen nesaf)

Torrwch dwll yng nghanol y gacen. Rhowch lond llwy de o mincemeat ar y gwaelod. Rhowch eich butter cream mewn bag peipio gyda siâp seren. Peipiwch siâp seren o'r menyn hufennog ar ben y 'mincemeat'. Ysgeintiwch ychydig o beli sgleiniog. Rhowch y caead yn ôl ar y top, ac ysgeintiwch ychydig o lwch eisin.

Pwdin Dolig Clecian

Toddwch 200g o 'Mars Bar' gyda 2 lond llwy de o coco a 2 llwy fwrdd o hufen sengl. Ychwanegwch 100g o 'Rice Krispies' i'r hylif siocled. Rhowch y llenwad mewn tun mini myffin, gan neu gwasgu i lawr ychydig.

Oergell am 2 awr. Trowch nhw allan wyneb i waered. Toddwch 100g o siocled gwyn a'i daenu at y top. 'Smartie' coch fel addurn.

Marian Ifans

Aelodau'r Cwrdd Merched ddaeth i flasu danteithion Marian

Cwrdd Merched Hydref

TEITHIO'R BYD – Lynn Davies

Agorwyd ein cyfarfod mis Hydref gyda darlleniad a gweddi amserol a pherthnasol iawn gan Delyth ac Eirlys (Danescourt).

Croesawodd Rhian Huws ein siaradwr gwadd, sef Lynn Davies, Rhiwbeina, ac roeddem yn gwybod y byddai ei sgwrs 'Teithio'r Byd' yn ddifyr a diddorol.

Cyflwynodd Lynn amrywiaeth o hanesion o'i deithiau niferus ar draws y byd. Cyfarfu ag unigolion pwysig yn ogystal â phobl gyffredin, pob un gyda'i stori unigol a'i neges arbennig. Cafodd gyfleoedd unigryw wrth ddilyn trywydd storïau arbennig. Roedd y rhai mwyaf cofiadwy ganddo yn brofiadau dyngarol a chymdeithasol. Bu'n cofnodi tlodi a chreulondeb - plant ifanc yn byw ar y stryd ac mewn cartrefi heb hawliau na chyfleusterau sylfaenol bywyd. Roedd Lynn yn cyfri ei fendithion ar ôl gweld y dioddef yma.

Rhoddodd enghreifftiau i ni o sefyllfaoedd ansicr a pheryglus y bu ynddynt gan gyflwyno'r wybodaeth yn hyderus i lygaid y camera. Gwelodd gyfoeth a thlodi eithafol mewn gwledydd gyda thai moethus a chabanau bregus. Profodd sefyllfaoedd o heddwch ac ymosodiadau.

Cyfarfu â phobl oedd yn falch o'i Cymreictod a'u cysylltiadau â Chymru. Daeth nôl adre i Gymru i fwynhau un o'i brofiadau gorau sef cyfweld â hen bysgotwr wrth arfordir Ynys Enlli gan brofi – 'Does unman yn debyg i gartref.' Fe gafodd Lynn brofiadau bythgofiadwy ac fe gawsom ni fwynhau ei ddawn a'i waith arbennig. Diolchwyd iddo gan Rhian.

Menna Jones

Cwrdd Merched Tachwedd

Rhodri'n Dilyn Llwybrau Martin Luther King

Marian Evans a lywyddodd y cyfarfod a Carol Davies a Delyth Evans a ymgymerodd â'r rhannau agoriadol gyda darlleniad pwrpasol a gweddi amserol.

Taith o Tenessee i Georgia yn dilyn trywydd Martin Luther King a'r digwyddiadau arwyddocaol a thyngedfennol yn ei hanes yntau a hanes mudiad hawliau sifil yn Unol Daleithiau America oedd tesun sgwrs Rhodri-Gwynn Jones.

Taith addysgiadol a thaith yn amlwg a gynhyrfodd Rhodri ac Ann ar eu hymweliad ag America ym mis Ebrill. Taith oedd yn llawn o gyd-digwyddiadau.

Dilyn llwybrau bywyd Martin Luther King a'r mannau a'r adeiladau pwysig oedd yn gysylltiedig ag e. Gan ddechrau ym Memphis ym Motel Lorraine lle arhosodd MLK droeon, adeilad sy'n Amgueddfa erbyn hyn ond a oedd yn un o'r gwestai prin a fu'n lletya cantorion Affro-Americanaidd yn ystod pumdegau a chwedegau'r ugeinfed ganrif. Yn eironig iawn dyma lle cafodd Martin Luther King ei saethu ym 1968.

Ymlaen wedyn i Jackson, prifddinas talaith Mississippi a chlywed am hanes dirdynnol Emmet Till, bachgen croenddu 14 oed a gafodd eu herwgipio, ei boenydio a'i ladd am feiddio cyffwrdd yn llawes menyw wen medden nhw. Ystyrir mai'r weithred hon ysgogodd fudiad Hawliau Sifil America.

Birmingham, Alabama, oedd y cyrchfan nesaf, y ddinas fwyaf rhanedig yr adeg honno, a rhyfeddu at ffenest liw John Petts o'r Crist Du yn y Baptist Church. Ffenest yn llawn symboliaeth ac yn coffau y bomio a'r dinistr ddigwyddodd yno lle lladdwyd 4 merch ifanc.

Drosodd wedyn I Bont Selma sef Pont Edmund Pettus. Barnwr hiliol eithafol oedd Pettus, un o arweinwyr y Klu Klux Klan ac er gwaethaf y gwrthwynebu a fu, penderfynwyd cadw'r enw er cof am ei weithredoedd dieflig, Ym 1965 trefnwyd 3 taith dros y bont hon i Montgomery, Alabama, i brotestio yn erbyn strwythur hiliol deddfau 'Jim Crow' oedd yn rhwystro hawl pobl dduon yn America rhag pleidleisio.

Soniodd Rhodri am Rosa Parks a'r cerflun iddi yn Montgomery ac Ebenezer Baptist Church yn Atlanta, yr eglwys lle bu ef a'i dad yn weinidogion arni, a'r parc cyfagos lle'i claddwyd. Dywedodd mai un o'r pethau fydd yn aros yn y cof oedd canu 'We shall overcome' yn swyddfa'r Mudiad yn Montgomery.

Diolch i Rhodri am ei gyflwyniad manwl ac addysgiadol a chronicl o hanes dirdynnol Martin Luther King . Y tristwch ydy bod tensiynau yn dal i fodoli o dan yr wyneb mewn sawl Talaith yn America.

Margaret Roberts

Ongl arall ar baratoi'r addurniadau Nadolig

Gweddi i Gymru Gyfan

Rhys Powys (a rhagarweiniad gan Wynford Ellis Owen

Annwyl Gyfeillion,
Pob Nadolig, ers pymtheg mlynedd, ar ran Cynnal a holl staff a defnyddwyr y Stafell Fyw ac Adferiad Recovery, rydym yn anfon allan gyfarchion ar ffurf gweddi i Gymru gyfan. Y Nadolig hwn y cyfarwyddwr teledu a ffilm, ***Rhys Powys****, sy'n gyfrifol am y weddi Adfent 2023, welwch chi isod. Diolch Rhys - am y gymwynas hon ymhlith nifer dros y blynyddoedd.*

Nid yw'n amser hawdd i lawer. Yr ydym lle'r ydym, er gwell, er gwaeth.

Ry'n ni'n ddiolchgar nad yw popeth yn dywyll. Ry'n ni'n ddiolchgar am y rhai sydd yna i ni yn ein hangen, yn cynnig cyfeillgarwch a chefnogaeth a dealltwriaeth. Boed i ni mewn rhyw ffordd fach fod yna i'r rhai hynny sydd ag anghenion nid annhebyg i ni. Boed i ni fod yn anrhegion y naill i'r llall.
Nadolig llawen ichi gyd ar waethaf popeth - a diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Boed i Dduw tangnefedd roi ei dangnefedd i ni, beth bynnag a wnawn ac i ble bynnag yr awn heddiw a phob dydd.

Wynford ***(Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol ac arweinydd Cynnal)***

Ein Tad,
Rydyn ni'n byw mewn oes o newid - newid cymdeithasol, newid gwleidyddol, newid hinsawdd, ac mae'n teimlo fel petai'r newidiadau'n digwydd yn fwy cyson, yn gyflymach ac yn fwy eithafol o hyd - y byd yn troi'n gynt nag erioed. Mae'n ymddangos hefyd, weithiau, fod y rhai hynny sy'n abl i reoli'r newidiadau hyn er gwell, er ein budd ni i gyd, yn methu yn eu gorchwyl, dro ar ôl tro. A phan fydd ffydd mewn arweinwyr yn cael ei danseilio mae'r teimlad o fod ar goll, yn ddi-gyfeiriad, yn anniogel, yn cynyddu.
Mae datblygiadau technolegol yn codi cwestiynau cymhleth ac yn gallu codi ofn ar yr un pryd. Pa ddelwedd sy'n real, a pha ddelwedd sy'n ffug? Beth grëwyd gan ddychymyg dynol a beth grëwyd gan ddeallusrwydd artiffisial? Rydyn ni'n byw mewn gobaith fod y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei defnyddio er lles, er budd, er daioni yn hytrach nag er drygioni a thwyll.
Weithiau, mae angen newid, wrth gwrs. Byd diflas iawn fyddai'r un lle mae pethau'n aros yn eu hunfan o hyd. Diolch fod yna rai sy'n gallu dyfeisio, sy'n gallu gwneud defnydd o dechnoleg er gwell a llywio pethe i gyfeiriad positif.
Helpa ni ddysgu i ymateb i sefyllfaoedd newydd - i addasu, i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd, i ddysgu sgiliau, i fanteisio ar brofiadau, i aros yn llawn cywreinrwydd - i droi cefn ar ddilyn hen arferion a phatrymau niweidiol 'mond achos eu bod yn gyfforddus, gyfarwydd.
Ond, hefyd, dysga ni i ddarganfod, i ddewis ac i ddal gafael ar yr hyn sy'n dda, sy'n greiddiol, "craig safadwy mewn tymhestloedd"- yr hyn sy'n ddigyfnewid, yn werthfawr ers cenedlaethau.
Ar ddiwedd un flwyddyn, ac ar dechau blwyddyn newydd, helpa ni i adael i hen batrymau niweidiol fynd yn angof, i dorri'n rhydd o ddibyniaeth afiach, a rho i ni'r nerth a'r doethineb i dderbyn sialensiau a phrofiadau newydd a gwneud y mwyaf o bob cyfle a ddaw.

Rhys Powys

I'ch atgoffa fod yna gyfoeth o wybodaeth am weithgareddau Bethlehem ar ein gwefan:
Bethlehem - Croeso i Fethlehem

gan gynnwys
yr oedfaon fan hyn:
Bethlehem - Gwasanaethau 2023

"Adar o'r un lliw, ehedant i'r un lle!" medd y ddihareb. Barnwch chi.
Ond fe wnaiff ambell aelod bopeth i ddal ein llygaid yn y "Gair Bach". Mae croeso i chithau gyfrannu – ar unrhyw bwnc dan haul.

ODLAU'R GARTH

Olwyn

Y Rhondda, 1990

[Dyma gerdd ddaeth yn agos i'r brig yn Eisteddfod y Rhondda eleni. Y beirniad oedd Ifor ap Glyn ddywedodd: 'Mae hon yn gerdd bwerus sy'n darlunio caledi economaidd, yn cynnwys cyffyrddiadau cynganeddol hyfryd. Ynddi mae brwydr yn erbyn anobaith a hiwmor tywyll yw'r gwrthbwynt. Hoffais yn arbennig y llinellau clo. Gwych.']

Gyda thoriad y wawr
rhwta ei lygad wrth adel.
Rhytha ymhen tipyn yn hiraethus
ond delwi ma'r olwyn
yn ffrâm fferru amgueddfa.

Wrth groesi'r bont grog,
rîl archif sy'n rowlio yn ei ben
fel troellen pen pwll
yn crensian.

Bob wthnos yn bybyr
gyrra lanciau awchus a bregus i Wlad yr Haf
o ble heidiai milo'dd, gan gynnwys ei hen hen dad-cu,
i wlad hud a golud.
Ond ar stryd gul y cwm
breuder a brad oer
sy'n rhewi llanc hyd at fêr ei esgyrn.

Gobeth caneri sy yn y lle dôl
wrth i'w ddicter grynhoi fel nwy dan ddaear:
'Gwarchod chwarel. Swyddog diogelwch.
Wyth deg punt yr wythnos.
Un amod, angen ci eich hunan.'
Bob wthnos yn bybyr,
ffyddiog y mae na ddiffodda,
y syrffia ar don rhyw freuddwyd
rôl syrffed lledu tar ar strydoedd llydan.

Ond ar y ffordd nôl,
ar drai yn araf mae'r afon
a dig yw'r gwynt sy'n siglo ei degan
o fan.

Am weddill yr wythnos
fe gica sodle, pob tasg ar ei hanner.

Heb yn wybod iddo,
wrth deithio'r ochor draw,
dant yw yn nhreigl amser
wrth i olwyn hanes wneud tro crwn.

Martin Huws

"Cater" Hannah

A llongyfarchiadau i Hannah Roberts, un arall o gyfranwyr cyson y golofn hon, wedi iddi, yn ei geiriau ei hunan: "ennill cater Eisteddfod Powys ac Edeirnion yn Y Bala... y gater gynta i fi allu ishte yndi wrth ga'l fy nghadeirio! Mae hi'n Ffab ishte yndi bob bore i ga'l brecwast!"
Testun y gerdd oedd "Egin" a'r beirniad oedd Aneurin Karadog. Iolo Puw, Parc, Y Bala oedd y saer a Kevin Burges wnaeth y cwshin a'r gadair yn rhoddedig gan siop Awen Meirion.
Er iddi i ennill sawl cadair erbyn hyn, hon oedd yr un gyntaf o lawn maint!

Dau englyn tymhorol o gyfrol newydd Rhys Dafis - "Gweld Llun o Glywed Llinell"

Yr Ych

Heb warafun na brefu, aberthodd
ei borthiant yn wely
yn y cor i'r Baban cu;
rhoes ei breseb i'r Iesu

Ein Nadolig Ni

Nid awn i weld ei anwyldeb 'leni;
rhy lawn hunanoldeb
ŷm ni i ymgrymu i neb,
a rhy brysur i breseb.